DEDDF GWASANAETHAU POST 2000

Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Gomisiwn y Gwasanaethau Post wedi ei gyhoeddi o dan adran 43(2) o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

Canllaw wedi ei roi i Gomisiwn y Gwasanaethau Post gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 43(2) o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 ar 22 Mawrth 2001

Cyflwyniad

1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol drwy hyn yn rhoi'r canllaw canlynol i Gomisiwn y Gwasanaethau Post o dan adran 43(2) o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 ynglŷn â chyfraniad y Comisiwn at wireddu'r polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol y cyfeirir atynt yn y canllaw.

2. Y Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 ("y Ddeddf") sy'n gweithredu'r cynigion a nododd y Llywodraeth yn ei Phapur Gwyn ym mis Gorffennaf 1999 ynglŷn â diwygio Swyddfa'r Post, gan gynnwys cyflwyno rheoleiddiwr post annibynnol newydd, Comisiwn y Gwasanaethau Post ("y Comisiwn"). Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau cymdeithasol ar y Comisiwn a'r bwysicaf o'r rhain yw dilyn ei swyddogaethau yn y ffordd a wêl orau i sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol. Mae'r canllaw arfaethedig hwn yn ychwanegol at y dyletswyddau cymdeithasol statudol hynny. Yn ôl adran 43(1) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiwn, wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau, gadw mewn cof unrhyw ganllaw a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran honno. Yn ôl adran 43(2) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi canllawiau o'r fath i'r Comisiwn o bryd i'w gilydd.

3. Mae'r canllaw yn tynnu ynghyd agweddau perthnasol ar bolisïau cymdeithasol ac amgylcheddol y Llywodraeth fel y gall y Comisiwn gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n adlewyrchu fframwaith ehangach y polisïau ac sydd, lle bynnag y bo modd, yn eu hategu. Yn ail, mae'r Ddeddf yn mynnu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi i'r Comisiwn ganllawiau cymdeithasol ac economaidd, ac nid cyfarwyddyd. Nid diben y canllawiau yw bod yn ddull o gyfarwyddo'r Comisiwn. O'i ran ef, mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddal sylw ar y canllawiau. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r canllaw aros mewn grym am beth amser – blynyddoedd yn hytrach na misoedd. Y rheswm am hyn yn rhannol yw am y bydd yn lleihau'r ansicrwydd rheoleiddio y gallai newidiadau aml ei greu, a hefyd oherwydd natur gyffredinol y canllaw ei hun a ddylai leihau'r angen am newid.

4. Rhoddwyd drafft o'r canllaw gerbron dau Dŷ'r Senedd, yn unol ag adran 43(4) o'r Ddeddf, ar 8 Chwefror 2001. Ers hynny, cafodd y cyfarwyddyd y sonnid amdano ym mharagraff 10.1 (Gwasanaethau i'r deillion) ei roi i'r Comisiwn ar 14 Mawrth 2001. Atodir copi o'r cyfarwyddyd wrth y ddogfen hon.

Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Gomisiwn y Gwasanaethau
Post wedi ei gyhoeddi o dan adran 43(2) o'r
Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

Cynnwys

Eitem	**Adran**
Rhagair	
Egwyddorion Cyffredinol	2.1
Datblygiad cynaliadwy	3.1
Y Canllaw	4.1
Blaenoriaethau	5.1
Asiantiaid	6.1
Codau ymarfer	7.1
Amcanion cymdeithasol a pholisi cymdeithasol	8.1
Gwasanaeth Post Cyffredinol	9.1
Argaeledd	9.4
Fforddiadwyedd	9.6
Talu am wasanaethau	9.8
Diogelwch gwasanaethau	9.10
Gallu i ymdopi â hyrddiau gwaith	9.12
Gwasanaethau i'r deillion	10.1
Argaeledd swyddfeydd post cyhoeddus	11.1
Yr iaith Gymraeg	12.1
Cysylltu â chwsmeriaid	13.1
Gwasanaethau arbennig	14.1
Amcanion amgylcheddol	15.1
Bod yn ddinesydd corfforaethol da	16.1
Gwybodaeth, ymgynghori a llunio adroddiadau	
Gwybodaeth	17.1
Ymgynghori	17.2
Llunio adroddiadau	17.4

Atodiad A – adran 43 o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000
Cyfarwyddyd wedi ei roi o dan adran 41 o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol
i
Gomisiwn y Gwasanaethau Post

RHAGAIR (NID RHAN O'R CANLLAW)

1.1 Mae adran 43 o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 ("y Ddeddf") yn darparu bod rheidrwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol roi i Gomisiwn y Gwasanaethau Post ("y Comisiwn") ganllaw ynghylch cyfraniad y Comisiwn at wireddu polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol y Llywodraeth. Nodir y Canllaw isod.

Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Yn ôl y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Comisiwn ddal sylw ar y canllaw hwn wrth gyflawni ei swyddogaethau, er bod rhai rhwymedigaethau o gymeriad cymdeithasol yn deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf. Yn fwyaf arbennig, prif ddyletswydd y Comisiwn – fel y mynnir yn adran 3 – yw dilyn ei swyddogaethau yn y ffordd a wêl orau i sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol. Fel y manylir isod, mae gwasanaeth o'r fath sy'n sicrhau casglu a dosbarthu rheolaidd ledled y wlad yn unol â thariff cyson unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, o fudd i gydlyniad cymdeithasol. Mae dyletswyddau eilaidd y Comisiwn – gan gynnwys y rhai a nodir yn adran 5 o'r Ddeddf – hefyd yn creu buddion cymdeithasol yn ogystal ag economaidd, gan roi i ddefnyddwyr fantais cystadleuaeth lle bynnag y bo hynny'n briodol a chyda sylw neilltuol i anghenion grwpiau penodedig o ddefnyddwyr. Yn amodol ar y dyletswyddau uchod, mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu gan y Comisiwn geisio hybu effeithiolrwydd a darbodaeth ar ran gweithredwyr y post. Dylai hefyd sicrhau bod modd i ddalwyr trwydded gyllido'r gweithgarwch a nodir o dan eu trwyddedau.

Datblygiad Cynaliadwy

3.1 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddilyn amcan datblygiad cynaliadwy. I'r dibenion hyn, diffinnir datblygiad cynaliadwy fel "gwell ansawdd bywyd i bawb, yn awr ac am genedlaethau i ddod". Nodir strategaeth y Llywodraeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn *A Better Quality of Life*[1] a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) ym Mai 1999. Mae pedwar prif nod i'r strategaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a'r bwriad yw eu hybu i gyd gyda'i gilydd. Mae gwireddu'r ansawdd bywyd gorau posibl i bawb yn golygu mwy na chanolbwyntio ar dwf economaidd yn unig a dylid dilyn y pedwar prif nod hyn yn gyfochrog:

- cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb;
- camau effeithiol i ddiogelu'r amgylchedd;
- defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth; a
- chynnal lefelau uchel a chyson o ran twf economaidd a chyflogaeth.

3.2 Nid yw rheoleiddiad economaidd y farchnad bost drwyddedig yn digwydd ar ei ben ei hun. Yn sgîl y ffyrdd y cyflawna'r Comisiwn ei swyddogaethau, fe welir

[1] *A Better Quality of Life, Gorch 4345,* DETR, Mai 1999

canlyniadau i'r agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol, yn ogystal ag economaidd, ar ddilyn datblygiad cynaliadwy.

3.3 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r system reoleiddiol gyfrannu'n briodol at wireddu datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn golygu y dylid trefnu'r rheoleiddio economaidd mewn ffordd sy'n adlewyrchu ac yn gyson ag amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y Llywodraeth. Bwriedir i'r canllaw yma helpu'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau i'r diben hwn.

3.4 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r Comisiwn roi ystyriaeth ddyledus i'r canllaw hwn, ac os rhoir y pwys priodol ar y materion dan sylw wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd hynny, mewn termau ymarferol, o gymorth i sicrhau cyfraniad addas y Comisiwn at gyrraedd pob amcan ym maes datblygiad cynaliadwy, ac yn hwyluso gwireddu integreiddiad priodol yr ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd yn ei drefniadau ar gyfer cymryd penderfyniadau.

Y CANLLAW

4.1 Mae'r paragraffau canlynol yn pennu amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol y Llywodraeth. Mae'r holl amcanion hyn yn rhai y gellir i raddau mwy neu lai effeithio ar eu cyflawniad gan y modd y trefnir rheoleiddio sector y post. Mae felly yn briodol i'r Comisiwn ddal sylw ar yr amcanion hyn wrth ddilyn ei swyddogaethau.

Blaenoriaethau

5.1 Dylai'r Comisiwn roi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhannau hynny o'r canllaw sydd a wnelont â'r ffordd y mae i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddilyn ei swyddogaethau yn y ffordd a wêl orau i sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol yn unol â thariff cyson. Yn fwyaf arbennig, dylai sicrhau bod hwnnw'n hygyrch i bawb (gweler adran 9.4) ac yn fforddiadwy i bawb, gan gynnwys grwpiau agored i niwed a rhai ar incwm isel (gweler adran 9.6). Dylid rhoi'r flaenoriaeth nesaf i ystyried effaith unrhyw rai o'i benderfyniadau ar argaeledd swyddfeydd post cyhoeddus ac ar y swyddogaethau cymdeithasol a gyflawnant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a threfol amddifadus (gweler adran 9.3).

Asiantiaid

6.1 Dylai'r Comisiwn ystyried y ffaith y gall trwyddedigion drefnu gwasanaethau post â chymorth asiantiaid. Lle penderfyna'r Comisiwn adlewyrchu'r canllaw hwn wrth gyflawni ei swyddogaethau, fe ddylai:

6.1.1 sicrhau, lle bo hynny'n briodol, fod trydydd partïon yn agored i reolaeth effeithiol y daliwr trwydded i'r perwyl y byddant yn ymddwyn fel pe bai'r daliwr trwydded ei hun yn cyflawni unrhyw swyddogaeth.

Codau ymarfer

7.1 Mae'r Llywodraeth yn cefnogi datblygu codau ymarfer i'r diwydiant. Dylai'r Comisiwn:

7.1.1 wrth ddal sylw ar y canllaw, ddal sylw hefyd ar fuddioldeb hybu a chefnogi datblygiad mentrau priodol, gan gynnwys codau ymarfer i'r diwydiant, er mwyn cyrraedd ei amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol.

Amcanion cymdeithasol a pholisi cymdeithasol

8.1 Yn unol ag adran 5 (2) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiwn (mewn cysylltiad â'r swyddogaeth y sonnir amdani yn adran 5 (1)), ddal sylw ar fuddiannau grwpiau agored i niwed yn y gymdeithas, sef yr anabl neu gleifion cronig, pensiynwyr, rhai ar incwm isel a rhai'n byw mewn ardaloedd gwledig[2]. I'r graddau y cwyd y cwestiwn pa bobl a ddylai gael sylw o fewn y grwpiau unigol hyn (a all fod ag anghenion amrywiol), dylai'r Comisiwn roi ystyriaeth arbennig:

8.1.1 i ymagwedd y Llywodraeth ei hun at y grwpiau dan sylw, fel y cyfleir honno mewn unrhyw ddogfennau polisi cyfredol[3] ;

8.1.2 i bolisi'r Llywodraeth o ystyried rhai sydd ar incwm isel yn bobl sy'n derbyn budd-daliadau yn ôl incwm (Ategiad Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm, Budd-dal Tai, a Budd-dal Treth Gyngor) ac yn bobl sy'n derbyn credydau treth (Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio a Chredyd Person Anabl).

8.2 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i greu cymdeithas decach trwy gynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb[4]. Yn arbennig, mae nod y Llywodraeth o fynd i'r afael â thlodi ac anghynhwysiant cymdeithasol yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'r amcan hwn yn un llydan ei naws. Polisi'r Llywodraeth yw y dylai holl gwsmeriaid y post allu manteisio'n gyfleus ar swyddfeydd post cyhoeddus a gwasanaethau post dibynadwy, diogel am brisiau fforddiadwy.

8.3 Wrth ddilyn ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn gadw mewn cof:

8.3.1 a yw rhyw grŵp neu grwpiau o ddefnyddwyr, yn enwedig defnyddwyr agored i niwed, mewn perygl o ddioddef effeithiau andwyol o ganlyniad i reoleiddio neu weithredu'r farchnad bost, neu heb gael, yn ôl pob golwg, gyfran ddyledus o fuddion unrhyw elfen o gystadleuaeth y gellir ei chyflwyno i'r farchnad;

---

[2] Dylai'r Comisiwn ddefnyddio diffiniad yr Asiantaeth Cefn Gwlad bod ardal wledig yn un sydd â phoblogaeth o lai na 10,000.

[3] Er enghraifft: "Opportunity for all – tackling poverty and social exclusion" (Gorch 4445 Medi 1999) First annual report, ac "Opportunity for all – one year on: making a difference" (Gorch 4865 Medi 2000) Second annual report, "Our Towns and Cities: the Future" (Gorch 4911, Tach 2000), "Our Countryside: The Future - a Fair Deal for Rural England" (Gorch 4909, Tach 2000).

[4] *A Better Quality of Life, Gorch 4345,* DETR, Mai 1999

8.3.2 y cyfle i ymosod ar unrhyw effeithiau andwyol a ddaw yn sgîl rheoleiddio neu weithredu'r farchnad bost neu gystadleuaeth, trwy gyflawni ei swyddogaethau.

Gwasanaeth Post Cyffredinol

9.1 Mae'r Gwasanaeth Post Cyffredinol yn rhan allweddol o drefn gyfathrebu effeithiol o fewn y DU (a rhwng y DU a gwledydd tramor). Cred y Llywodraeth fod y gwasanaeth hwn yn hanfodol i bob rhan o'r gymdeithas a bod busnesau a defnyddwyr unigol yn dibynnu arno. Oherwydd ei bwysigrwydd mawr, mae'r Llywodraeth wedi gosod amod yn adran 4 o'r Ddeddf y dylid sicrhau gwasanaeth post cyffredinol. Mae'r gwasanaeth post cyffredinol yn cwmpasu pacedi hyd at 20 kg ac yn cynnwys darpariaeth bod rhaid i wasanaethau fod yn fforddiadwy ac yn unol â thariff cyson. Mae Penodau 2 a 6 o Gyfarwyddeb y Gwasanaethau Post[5] yn cynnwys gofynion manwl ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol. Dyletswydd statudol gynta'r Comisiwn yw dilyn ei swyddogaethau yn y ffordd a wêl orau i sicrhau bodloni'r rhain.

9.2 Mae adran 3 o'r Ddeddf yn mynnu gan y Comisiwn gyflawni ei swyddogaethau yn y modd a wêl orau i sicrhau darparu Gwasanaeth Cyffredinol neu ran o wasanaeth felly. Mae'r Ddeddf yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i fynnu amod bod Gwasanaeth Cyffredinol neu ran o wasanaeth felly yn cael ei ddarparu cyn rhoi trwydded i ddarparwyr gwasanaethau post. Gall y Comisiwn fynnu gofynion manylach yn y trwyddedau a rydd i weithredwyr post. Mae adran 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod y ddyletswydd y sonnir amdani yn adran 5(1) a dyletswyddau eraill yn llai pwysig na'r ddyletswydd i sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol. Rhaid i'r Comisiwn ddal sylw ar nod cymdeithasol sicrhau gwasanaeth post cyffredinol yn hytrach nag ar newidiadau eraill i hybu buddiannau defnyddwyr y gwasanaethau post.

9.3 Wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r gwasanaeth post cyffredinol, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

9.3.1 ar fuddioldeb ymgynghori â'r cyrff a enwir ym mharagraff 17.3.2 cyn mynnu i weithredwyr post wneud newidiadau sylweddol i nodweddion a safonau presennol y gwasanaeth;

9.3.2 ar yr angen am hwyluso datblygiad economaidd trwy adolygu darpariaeth y Gwasanaeth Cyffredinol yn gyson er mwyn iddo gadw cam a cham â datblygiadau yn y farchnad, ac am roi ystyriaeth i ddatblygiadau cymdeithasol, megis newidiadau yn nosbarthiad y boblogaeth, ac anghenion newydd defnyddwyr y post yn gyffredinol a grwpiau arbennig ohonynt sy'n agored i niwed;

9.3.3 ar yr effaith y gall unrhyw rai o'i benderfyniadau ei chael ar rwydwaith cwmni Swyddfa'r Post o swyddfeydd post cyhoeddus a'r swyddogaethau cymdeithasol y byddant yn eu cyflawni, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a threfol amddifadus. Gweler hefyd adran 11 o'r canllaw hwn.

[5] 97/67/EC - Official Journal of the European Communities, 21 Ionawr 1998, tudalen L15/14

Argaeledd

9.4 Bydd y Comisiwn yn pennu gofynion ar gyfer darparu pwyntiau argaeledd. Mae Erthygl 3 (2) o'r Gyfarwyddeb yn mynnu ystyriaeth i anghenion y defnyddwyr wrth benderfynu amlder pwyntiau cysylltu a phwyntiau argaeledd. Ystyrir bod pwyntiau argaeledd yn golygu blychau llythyrau a swyddfeydd post (ynghyd â mannau/pwyntiau eraill wedi eu marcio'n glir fel y cyfryw) a ddarperir i ddefnyddwyr adael eitemau post i'w casglu gan ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Rhaid i'r Comisiwn ystyried, fel rhan o'i ddyletswydd i sicrhau Gwasanaeth Cyffredinol, niferoedd, mathau a dosbarthiad y pwyntiau argaeledd sydd angen er mwyn gallu gwarantu'r ddarpariaeth leiaf sy'n ofynnol o dan y Gwasanaeth Cyffredinol.

9.5 Barn y Llywodraeth yw y dylai'r Comisiwn, wrth gyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau sy'n ymwneud ag argaeledd:

9.5.1 ddal sylw llawn ar anghenion y grwpiau a bennwyd yn adran 8.1 wrth ystyried anghenion defnyddwyr;

9.5.2 peidio â gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion ar gyfer amlder pwyntiau argaeledd, oni ellir dangos, wedi ymgynghori â defnyddwyr, fod yr amlder hwn heb adlewyrchu anghenion defnyddwyr mwyach;

9.5.3 annog gweithredwyr i farcio pwyntiau argaeledd yn glir fel bod modd eu hadnabod yn rhwydd.

Fforddiadwyedd

9.6 Mae adran 3 o'r Ddeddf yn mynnu gan y Comisiwn gyflawni ei swyddogaeth yn y ffordd a wêl orau i sicrhau darparu Gwasanaeth Cyffredinol. Mae adran 4 (1) (b) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir mai dim ond os bydd y gwasanaethau'n fforddiadwy yr ystyrir bod Gwasanaeth Cyffredinol yn cael ei ddarparu.

9.7 Wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â fforddiadwyedd, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

9.7.1 ar incwm pobl incwm-isel yn unol â diffiniad 8.1 uchod.

Talu am wasanaethau

9.8 Polisi'r Llywodraeth yw y dylai fod yn bosibl talu am wasanaethau post trwy ddulliau talu a ddefnyddir yn gyffredin, ac y dylai'r gwasanaethau hynny fod yn fforddiadwy.

9.9 Wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â dulliau talu, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

9.9.1 ar y fantais a ddeillia i lawer o ddefnyddwyr, yn arbennig defnyddwyr agored i niwed, yn sgîl sicrhau argaeledd cyson dulliau syml o dalu ymlaen llaw am

wasanaethau post (er enghraifft, stampiau). Dylai'r Comisiwn annog gweithredwyr post i ddefnyddio amrywiaeth helaeth o allfeydd ar eu cyfer.

Diogelwch gwasanaethau

9.10 Un o amcanion *Quality of Life Counts*[6] yw lleihau troseddu ac ofn troseddu fel ei gilydd.

9.11 Barn y Llywodraeth yw y dylai'r Comisiwn, wrth gyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau sy'n ymwneud â diogelwch gwasanaethau:

9.11.1 hwyluso'r ffordd a rhoi anogaeth i weithredwyr a defnyddwyr y post i gadw lefelau difrodi, colli neu ladrata eitemau post neu barseli mor isel â phosibl, a hybu diogelwch swyddfeydd post cyhoeddus o ran y gwasanaethau post a'r gwasanaethau eraill a roddant;

9.11.2 annog gweithredwyr i sicrhau argaeledd parod a chyhoeddusrwydd ynghylch post cofrestredig a gwasanaethau dosbarthiad arbennig eraill ar gyfer pob cwsmer sydd eisiau'r lefel uwch hon o ddiogelwch;

9.11.3 annog gweithredwyr post i ddarparu pwyntiau argaeledd diogel.

Gallu i ymdopi â hyrddiau gwaith

9.12 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau argaeledd gwasanaeth post cyffredinol trwy gydol y flwyddyn

9.13 Wrth gyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau sy'n ymwneud â phennu a monitro safonau ansawdd y gwasanaeth ac wrth ystyried gallu gweithredwyr post i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

9.13.1 ar y ffaith bod defnyddwyr yn manteisio'n helaethach ar wasanaethau post adeg gwyliau a digwyddiadau arbennig fel y Nadolig, Dydd Gŵyl Sain Folant a Diwali ac y dylai gweithredwyr gwasanaethau post cyffredinol allu cynnal gwasanaeth cyffredinol ar yr adegau hyn.

Gwasanaethau i'r deillion

10.1 Cred y Llywodraeth fod angen dilys am wasanaethau di-dâl i'r deillion a'r rhannol ddall sy'n dibynnu ar y post. Mae eitemau Braille a llyfrau llafar yn drymach ac yn ddrutach eu postio na llythyrau cyfatebol. Mae adran 41 o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 yn rhoi i'r Llywodraeth bŵer penodol i fynnu bod Comisiwn y Gwasanaethau Post yn cynnwys mewn rhai trwyddedau amod bod gwasanaethau post i'w darparu'n rhad ac am ddim i'r deillion a phobl rannol ddall. Bwriedir nodi'r gwasanaethau sydd i'w darparu, ynghyd â disgrifiadau o ddellni a dellni rhannol, yn y cyfarwyddyd. Os rhoir cyfarwyddyd o'r fath, ni ddaw i rym ond o gael ei 'weithredu' trwy i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer cyfarwyddyd pellach o dan adran 41(2) o'r

[6] *Quality of Life Counts*, cyhoeddwyd Ragfyr 1999 ac ar gael gan y DETR

Ddeddf. Mae'n fwriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd[7] yn mynnu i amod o'r fath gael ei gynnwys ymhob trwydded sy'n ymgorffori rhwymedigaeth i gynnig gwasanaeth cyffredinol, ond dim ond os dangosir bod y trefniadau gwirfoddol a wneir gan ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol yn methu sicrhau gwasanaethau di-dâl digonol i'r deillion a'r rhannol ddall y bydd yn 'gweithredu' yr amod.

10.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

10.2.1 ar fuddioldeb parhau i ddarparu gwasanaethau mewnol yn ddi-dâl a gwasanaethau rhyngwladol am gost ostyngol ar gyfer y deillion a'r rhannol ddall;

10.2.2 ar fuddioldeb ffurfio cysylltiadau â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a grwpiau eraill sy'n cynrychioli defnyddwyr dall a rhannol ddall fel ei fod yn cael gwybod am eu barn a barn Cyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post;

10.2.3 ar angen sicrhau bod y ffordd y trefnir gwasanaethau i'r deillion a'r rhannol ddall gan weithredwyr gwasanaeth cyffredinol yn glir a thryloyw, heb rwystro manteisio ar wasanaethau o'r fath;

10.2.4 ar angen monitro darpariaeth gwasanaethau i'r deillion a'r rhannol ddall gan weithredwyr gwasanaeth cyffredinol fel y gall y Comisiwn ofalu'n gyson roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch darpariaeth gwasanaethau o'r fath.

Argaeledd swyddfeydd post cyhoeddus

11.1 Cred y Llywodraeth fod rhwydwaith cwmni Swyddfa'r Post o swyddfeydd post cyhoeddus yn rhan hanfodol o we'r gymdeithas. Gwasanaethant 28 miliwn o bobl bob wythnos, gan gyflawni swyddogaeth anhepgor ledled y wlad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a threfol amddifadus. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ar draws y wlad yn cael manteisio'n gyfleus ar y gwasanaethau sydd ar gael mewn swyddfeydd post. Polisi'r Llywodraeth yw cefnogi moderneiddio'r rhwydwaith a chydweithio â chwmni Swyddfa'r Post, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri ac eraill i gyflawni hyn. Mae'r Llywodraeth yn gweld gwerth y rhwydwaith; mae am iddo ffynnu[8].

11.2 Cydnabyddir, fodd bynnag, fod y rhwydwaith yn wynebu heriau. Bu i'r Prif Weinidog gomisiynu'r Uned Perfformiad a Blaengarwch (PIU) yn Hydref 1999 i lunio strategaeth ar gyfer ei ddyfodol. Yn eu hadroddiad, *Counter Revolution Modernising the Post Office Network*[9], fe wnaed 24 o argymhellion ar gyfer camau i'w cymryd yn y dyfodol. Cyhoeddodd y Llywodraeth ar 28 Mehefin 2000[10] ei bod yn derbyn pob

[7] Trefnwyd ymarferiad ymgynghori'n ddiweddar o dan adran 41(3) o'r Ddeddf Gwasanaethau Post i ystyried a ddylid rhoi cyfarwyddyd o'r fath.
[8] Gweler Rhagair y Prif Weinidog i Adroddiad y PIU 'Counter Revolution Modernising the Post Office Network'
[9] Ar gael yn http:www.cabinet-office.gov.uk/innovation
[10] Datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ar 28 Mehefin 2000. Hansard col 907

argymhelliad ac mae wedi sefydlu pwyllgor o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i gydgysylltu'r gweithredu.

11.3 Wrth ddilyn ei swyddogaethau o dan adran 42 o'r Ddeddf o ran cynghori a darparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch swyddfeydd post cyhoeddus a swyddogaethau cysylltiedig, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

11.3.1 ar ymrwymiad y Llywodraeth i gynnal y rhwydwaith gwledig, ac atal unrhyw gau y gellir ei osgoi o ran swyddfeydd post gwledig; diogelu argaeledd cyfleus a gwella ansawdd swyddfeydd post yn ein trefi a'n dinasoedd; a sicrhau bod pobl mewn cymdogaethau trefol amddifadus yn cael manteisio'n gyfleus ar swyddfeydd post o ansawdd uchel, yn unol ag unrhyw ddatganiadau polisi a wnaed yn barod neu a wneir yn y dyfodol ac yn gyson hefyd â'r ymrwymiad i'r rhaglen weithredu o dan Adroddiad y PIU;

11.3.2 ar effaith bosibl unrhyw benderfyniad y gall ei gymryd ynglŷn â rhwydwaith cwmni Swyddfa'r Post o swyddfeydd post cyhoeddus a dymuniad y Llywodraeth am gefnogi'r Comisiwn ei hun lle bynnag y bo modd, ynghyd â chwmni Swyddfa'r Post a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri, wrth gynnal y rhwydwaith gyda sylw neilltuol i 11.3.1 uchod ac 11.5 isod;

11.3.3 ar anghenion y grwpiau y soniwyd amdanynt yn 8.1.

11.4 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod swyddfeydd post gwledig a rhai mewn ardaloedd trefol amddifadus yn chwarae rhan arwyddocaol wrth gynnal cymunedau lleol, trwy sicrhau argaeledd ystod o wybodaeth a gwasanaethau, a hynny'n aml ar y cyd â chyfleustra manwerthu o dan yr un to.

11.5 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn:

11.5.1 ystyried unrhyw ardrawiad posibl - cadarnhaol neu negyddol – ar amrediad ac ansawdd gwasanaethau sydd heb ymwneud â'r post mewn swyddfeydd post gwledig a swyddfeydd post mewn ardaloedd trefol amddifadus, neu mewn cysylltiad â'r rheiny, ynghyd â'r buddion cymdeithasol ac amgylcheddol a gynigiant, a rhoi sylw hefyd i'r angen am gadw rhwydwaith cenedlaethol cynhwysfawr o swyddfeydd post.

Yr Iaith Gymraeg

12.1 Mae'r Llywodraeth wedi annog Swyddfa'r Post i fabwysiadu egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wrth weithredu yng Nghymru fel y diwellir anghenion defnyddwyr Cymraeg.

12.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn:

12.2.1 annog darparwyr gwasanaeth cyffredinol sy'n gweithredu yng Nghymru i ddal sylw ar egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cysylltu â chwsmeriaid

13.1 Mae'r Llywodraeth yn cefnogi trin defnyddwyr yn gyffredinol mewn ffordd ystyriol.

13.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn:

13.2.1 ddal sylw ar fuddioldeb sicrhau bod materion a godir ag ef, gan gynnwys cyhuddiadau'n awgrymu y torrwyd amodau'r drwydded ynglŷn â delio â chwsmeriaid neu y methwyd bodloni'r safonau perfformiad sy'n ofynnol o dani, yn cael eu trin mewn ffordd sy'n parchu anghenion defnyddwyr;

13.2.2 dal sylw ar fuddioldeb sicrhau y caiff cwynion eu trin mewn ffordd sy'n parchu anghenion arbennig grwpiau o ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, fel y sonnir amdanynt yn adran 5 (2) o'r Ddeddf, ac ym mharagraff 8.1 uchod;

13.2.3 lle bo hynny'n briodol, rhoi atborth i drwyddedigion ynglŷn ag angen gwella gwasanaethau mewn ffyrdd y soniwyd amdanynt yn sylwadau cwsmeriaid fel a gyflwynwyd yn uniongyrchol iddynt hwy ac i Gyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post. Lle byddai newidiadau sylweddol yn y cwestiwn, dylid trefnu ymgynghori er mwyn sicrhau bod sylwadau'r atborth fel mater o ffaith yn adlewyrchu'r farn ehangach.

13.3 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y cwestiwn o drin cwynion yn fater yn bennaf i Gyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post o dan y Ddeddf.

Gwasanaethau arbennig

14.1 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod gwerth nifer o wasanaethau arbennig a roir gan weithredwyr post. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd gwledig yn y DU mae Swyddfa'r Post yn rhedeg bysiau post sydd o fudd i drigolion yr ardaloedd hynny. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyfrannu at amcanion cymdeithasol ac amcanion trafnidiaeth ehangach y Llywodraeth. Enghraifft arall yw traddodiad Swyddfa'r Post o sicrhau yr anfonir llythyrau i ateb y plant niferus sy'n ysgrifennu at Siôn Corn.

14.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn:

14.2.1 ddal sylw ar y ffaith y gall gweithredwyr post, megis cwmni Swyddfa'r Post, wario arian ar weithgareddau eraill sydd heb ymwneud â'r post ond a all fod â buddion cymdeithasol ehangach;

14.2.2 wrth ystyried a oes tystiolaeth o aneffeithiolrwydd neu weithgarwch annarbodus gan unrhyw weithredwr post, dal sylw ar fuddion cymdeithasol y math hwn o weithgarwch, yn enwedig i'r grwpiau y sonnir amdanynt yn adran 5 (2) o'r Ddeddf a'r grwpiau incwm isel y soniwyd amdanynt ym mharagraff 8.1 uchod.

Amcanion amgylcheddol

15.1 Mae strategaeth y Llywodraeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn gosod chwe amcan bras i'w pholisi amgylcheddol, yn sail i ddilyn nod cyffredinol diogelu'r amgylchedd mewn modd effeithiol[11]. O berthnasedd arbennig i sector y post yw'r amcanion i leihau llygredd yr awyr a gwneud yn siŵr bod ansawdd yr awyr yn parhau i wella dros y tymor hwy a bod lefelau gwastraff yn cael eu cadw mor isel â phosibl er mwyn hybu cynhyrchedd adnoddau[12]. Mae gweithredwyr post yn ddefnyddwyr arwyddocaol lle mae cerbydau yn y cwestiwn.

15.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn annog gweithredwyr post, lle bynnag y bo hynny'n gyson â'r nod o fodloni'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol am bris fforddiadwy ac yn ôl y safonau ansawdd (gan gynnwys cyflymdra'r dosbarthu) a bennir mewn deddfwriaeth a chan y Comisiwn:

15.2.1 i greu systemau dosbarthu mwy effeithiol a chadw golwg ar ddarbodaeth danwydd pryd bynnag y bo modd;

15.2.2 i ddefnyddio cludiant rheilffordd i'r graddau uchaf posibl;

15.2.3 i ddefnyddio beiciau neu beiriannau difodur eraill mor helaeth â phosibl at ddibenion dosbarthu;

15.2.4 i gadw lefelau gwastraff mor isel â phosibl ac ailgylchu gwastraff lle bynnag y bo modd yn y maes cerbydau ac mewn agweddau eraill ar eu gweithgareddau;

15.2.5 i gyflwyno trefniadau 'gwyrdd' yng nghyswllt monitro hwsmonaeth er mwyn ceisio hybu'r effeithiolrwydd uchaf posibl o ran defnyddio *diesel*, petrol, trydan, nwy, dŵr ac adnoddau eraill;

15.2.6 i brynu, cadw a gwerthu neu ddefnyddio'n briodol gynhyrchion wedi eu hailgylchu, yng nghyswllt unrhyw swyddfa bost a redir ganddynt (er enghraifft, dodrefn stryd, sachau post a defnyddiau ysgrifennu).

15.3 Amcan perthnasol arall yw llunio'n cwmpasoedd mewn ffordd ddeniadol. Rhan o hyn yw trefnu lefelau traffig is a lleihau llygredd sŵn. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod modd ystyried gormod o sŵn yn ddifwynydd a all dynnu oddi ar ansawdd bywyd (gweler pennod 7 o *Quality of Life Counts)*.

15.4 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

15.4.1 ar unrhyw ardrawiad a all ddod yn sgîl newidiadau i'r ffordd y bydd gweithredwyr post trwyddedig yn dilyn eu gweithgareddau o ran lefelau traffig a maint ac amseriad unrhyw lygredd sŵn y gall hyn ei achosi.

---

[11] O *Quality of Life Counts*, adroddiad dan arweiniad y DETR, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 1999 ac sydd ar gael gan y DETR. Mae hwn yn ddilyniant i adroddiad *A Better Quality of Life*

[12] Gweler DTI SUSTAINABLE DEVELOPMENT STRATEGY A strategy for simultaneously securing economic growth and environmental protection

15.5 Fel rhan o'r nod o lunio'n cwmpasoedd mewn ffordd ddeniadol, mae'r Llywodraeth yn cefnogi unrhyw gamau a fydd yn cyfrannu at sicrhau strydoedd ac adeiladau atyniadol. Mae hyn yn berthnasol i wasanaethau post. Mae gan Swyddfa'r Post, er enghraifft, nifer fawr o swyddfeydd didoli a blychau llythyrau eisoes, ynghyd â nifer gynyddol o flychau cwd a pheiriannau stampiau. Bydd hefyd yn cymeradwyo arwyddion i'w dangos yn ei swyddfeydd a'i his-swyddfeydd post ei hun.

15.6 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, felly, dylai'r Comisiwn:

15.6.1 ddal sylw ar bolisi'r Llywodraeth, gan gynnwys polisi cynllunio, ynglŷn â strydoedd deniadol a meithrin dylunio a chynnal adeiladau atyniadol sy'n gydnaws â'u hamgylchoedd. Dylai, fodd bynnag, fynnu cydbwysedd rhwng ystyriaethau o'r fath ac angen sicrhau argaeledd yn unol â manylion adrannau 9.4 a 10.1 o'r canllaw hwn.

15.7 Mae'r Llywodraeth yn cefnogi casglu gwybodaeth am yr arferion rhyngwladol gorau mewn materion amgylcheddol.

15.8 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn:

15.8.1 ystyried buddioldeb arfer ei bwerau o dan adran 44 o'r Ddeddf gyda golwg ar gasglu gwybodaeth o'r fath ymhlith gweithredwyr post yn y DU a thramor, a chyhoeddi canllawiau.

Bod yn ddinesydd corfforaethol da

16.1 Mae'r DTI wedi cyhoeddi ei strategaeth ei hun ynghylch datblygiad cynaliadwy[13]. Ei blaenoriaethau pennaf yw:

16.1.1 gwella effeithiolrwydd adnoddau er mwyn lleihau allyriant nwyon tŷ gwydr, a gostwng lefelau'r gwastraff a greir

16.1.2 meithrin mwy o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad ehangach ymhlith busnesau at gyfrifoldeb ac ymddygiad amgylcheddol a chymdeithasol a safonau uchel o reolaeth gorfforaethol.

16.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn:

16.2.1 ddal sylw ar strategaeth y DTI ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

Gwybodaeth, ymgynghori a llunio adroddiadau

Gwybodaeth

17.1 Dylai'r Comisiwn ddal sylw:

[13] DTI SUSTAINABLE DEVELOPMENT STRATEGY A strategy for simultaneously securing economic growth and environmental protection. Mae hon ar gael yn: www.dti.gov.uk/

17.1.1 ar fuddioldeb casglu gwybodaeth am anghenion grwpiau o ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, lle mae gwasanaethau post yn y cwestiwn - yn arbennig y grwpiau o ddefnyddwyr y sonnir amdanynt yn adran 5 o'r Ddeddf a pharagraff 8.1 o'r canllaw hwn. Dylai gwybodaeth o'r fath gynnwys argaeledd, digonolrwydd, fforddiadwyedd ac amrediad y gwasanaethau a roir gan weithredwyr post.

Ymgynghori

17.2 Mae'r Llywodraeth yn bleidiol i ymgynghori helaeth. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi paratoi canllaw ar ymgynghori, sy'n gymwys i'r Comisiwn fel Adran Ddiweinidog o'r Llywodraeth. Mae'r fersiwn diweddaraf o hwn ar gael yn www.cabinet-office.gov.uk

17.3 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r Comisiwn:

17.3.1 ddal sylw ar fuddioldeb ymgynghori, hyd yn oed lle na fo angen iddo wneud, ynghylch cynigion yn ymwneud ag arfer ei bwerau;

17.3.2 mor bell ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, ymgynghori â phob corff yr ymddengys i'r Comisiwn fod ganddo'r arbenigedd perthnasol, yn ogystal ag ymgynghori â Chyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post ac unrhyw gorff priodol arall sy'n cynrychioli defnyddwyr, trwyddedigion perthnasol, ac eraill y mae angen gorfodol ymgynghori â nhw.

Llunio adroddiadau

17.4 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynhyrchu adroddiad blynyddol a chyhoeddi gwybodaeth a chyngor yn fwy cyffredinol.

17.5 Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, dylai'r Comisiwn ddal sylw ar fuddioldeb:

17.5.1 cynnwys disgrifiad o agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol ei waith, yn enwedig yr agweddau y soniwyd amdanynt yn y canllaw hwn;

17.5.2 datgelu'n rheolaidd fanylion y perfformiad a wireddwyd yng nghyswllt y materion cymdeithasol ac amgylcheddol yr ymdriniwyd â nhw yn y canllaw hwn ac yng nghyswllt unrhyw faterion perthnasol eraill yn y meysydd hyn, gan annog gweithredwyr post trwyddedig i wneud yr un fath;

17.5.3 rhoi i gwsmeriaid gyngor a gwybodaeth glir a hygyrch ynghylch ei waith, gan gynnwys ei ymhlygiadau cymdeithasol ac amgylcheddol.

17.6 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod gan weithredwyr gwasanaethau post cyffredinol a swyddfeydd post ran bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu portread manwl-gywir o sefyllfa cwsmeriaid sy'n agored i niwed.

17.7 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Comisiwn ddal sylw:

17.7.1 ar fuddioldeb annog gweithredwyr post i fod yn agored ynglŷn a dimensiwn cymdeithasol eu gweithgarwch, yn arbennig trwy gyfrwng trefniadau cyfundrefnol ar gyfer llunio adroddiadau i'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys creu adroddiadau ar hygyrchedd gwasanaethau gweithredwyr post e.e. i ddefnyddwyr gwledig ac anabl. Mae gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) gyfres o gyhoeddiadau ynghylch llunio adroddiadau amgylcheddol gan gwmnïau, y gellir cael gafael arnynt yn:
http:/www.environment.detr.gov.uk/envrp/index.htm

Atodiad A

Adran 43 o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

43. - (1) Rhaid i'r Comisiwn, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ddal sylw ar unrhyw ganllaw a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon.

(2) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd roi canllawiau ynglŷn â chyfraniad y Comisiwn at wireddu unrhyw bolisïau cymdeithasol neu amgylcheddol a nodir neu y cyfeirir atynt mewn canllawiau.

(3) Cyn rhoi unrhyw ganllaw o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori-
(a) â'r Comisiwn,
(b) â'r Cyngor,
(c) ag unrhyw ddarparwr gwasanaeth cyffredinol,
(d) ag unrhyw ddaliwr trwydded o dan Ran II nad yw'n ddarparwr gwasanaeth cyffredinol, ac
(e) ag unrhyw bobl eraill a wêl yr Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

(4) Caiff fersiwn drafft o unrhyw ganllaw y bwriedir ei gyhoeddi yn unol â'r adran hon ei roi gerbron dau Dŷ'r Senedd.

(5) Ni roir canllaw o dan yr adran hon cyn diwedd cyfnod o 40 diwrnod, gan ddechrau-
(a) ar y diwrnod y rhoir y drafft gerbron dau Dŷ'r Senedd, neu
(b) os rhoir y drafft gerbron Tŷ'r Arglwyddi un diwrnod a Thŷ'r Cyffredin ar ddiwrnod arall, ar yr olaf o'r ddau ddiwrnod hynny.

(6) Os penderfyna'r naill Dŷ neu'r llall, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, na ddylid rhoi'r canllaw, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei roi.

(7) Wrth fwrw cyfrif o unrhyw gyfnod o 40 diwrnod at ddibenion isadran (5) neu (6), nid ystyrir unrhyw amser-
(a) pan fydd y Senedd wedi ei gollwng neu ei haddoedi, na
(b) pan gaiff y ddau Dŷ eu gohirio am fwy na phedwar diwrnod.

(8) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu i unrhyw ganllaw a roir ganddo yn unol â'r adran hon gael ei gyhoeddi mewn ffordd a wêl yn addas.

TESTUN Y CYFARWYDDYD I GOMISIWN Y GWASANAETHAU POST

At: Gomisiwn y Gwasanaethau Post

CYFARWYDDIADAU O DAN ADRAN 41 O'R DDEDDF GWASANAETHAU POST 2000

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer ei bwerau o dan adran 41(1) o'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 ("y Ddeddf") ac ar ôl ymgynghori â Chomisiwn y Gwasanaethau Post ("y Comisiwn") a Chyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post, yn rhoi i'r Comisiwn y cyfarwyddyd canlynol:

1. Bydd y Comisiwn, fel un o amodau trwydded berthnasol[14], yn pennu rheidrwydd i'r daliwr trwydded gyflenwi'r gwasanaethau post di-dâl[15] a nodir isod i'r categorïau o bobl ddall a rhannol ddall a ddisgrifir isod.

   Gwasanaethau post di-dâl

2. Gyda golwg ar gyrchfannau yn y Deyrnas Unedig, mae'r gwasanaethau post di-dâl yn rhai sy'n ymwneud â dosbarthu pecynnau post[16] yn cynnwys yr eitemau a nodir yn Atodiad A ac sydd heb bwyso mwy na 7 kg, gan anelu at ddosbarthu erbyn y diwrnod gwaith nesaf wedi eu postio, neu, os na roir y gwasanaeth hwnnw gan y gweithredydd, at ddarparu'r gwasanaeth cyfatebol agosaf.

3. Gyda golwg ar bost tir-a-môr i bob cyrchfan ar wahân i rai yn y Deyrnas Unedig, mae'r gwasanaethau post di-dâl yn rhai sy'n ymwneud â dosbarthu pecynnau post yn cynnwys yr eitemau a nodir yn Atodiad A ac sydd heb bwyso mwy na 7 kg.

4. Gyda golwg ar bost awyr, y gwasanaethau post di-dâl yw:

   (a) gwasanaethau'n ymwneud â dosbarthu i gyrchfannau yn y gwledydd a nodir yn Atodiad B becynnau post yn cynnwys yr eitemau a nodir yn Atodiad A ac sydd heb bwyso mwy nag 1 kg;
   (b) pob gwasanaeth arall sy'n ymwneud â dosbarthu pecynnau post yn cynnwys yr eitemau a nodir yn Atodiad A ac sydd heb bwyso mwy na 7 kg.

5. Bydd y gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 4(b) mewn cysylltiad â dosbarthu pecynnau trwy bost awyr yn cael eu hystyried yn wasanaethau di-dâl os na chymhwysir tariff neu, lle mae'r tariff awyr safonol ar gyfer y pecyn yn

[14] Diffinnir "trwydded berthnasol" yn adran 41(4) o'r Ddeddf.
[15] Diffinnir "gwasanaethau post di-dâl" yn adran 125(1) o'r Ddeddf.
[16] Diffinnir "pecyn post" yn adran 125(1) o'r Ddeddf.

uwch na'r tariff tir-a-môr safonol ar gyfer y pecyn hwnnw, os cymhwysir tariff nad yw'n fwy na'r gwahaniaeth.

Disgrifiadau o bobl ddall a rhannol ddall

6. Y disgrifiadau o bobl ddall a rhannol ddall yw:

- pobl sydd wedi eu cofrestru'n ddall yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; a

- phobl rannol ddall: rhai y mae safon eu golwg agos, gyda sbectol, yn cyfateb i N12 (maint print) neu lai, yn unol â thystysgrif offthalmolegydd, meddyg neu optegydd offthalmig.

Nid yw'r cyfarwyddyd hwn i'r Comisiwn yn cynnwys cyfarwyddyd o dan adran 41(2)(a) o'r Ddeddf y bydd yr amod yn dod i rym.

Dyddiad: 14 Mawrth 2001

Llofnodwyd gan: Alan Johnson, Gweinidog Cystadlu, Adran Masnach a Diwydiant

Atodiad A

Eitemau y gellir eu hanfon yn ddi-dâl

a) llyfrau, papurau a llythyrau a baratowyd yn benodol i'w defnyddio gan bobl ddall;
b) papurau a anfonir at unrhyw un i gael eu paratoi neu eu hargraffu'n arbennig fel y gall pobl ddall eu defnyddio;
c) mapiau tirwedd;
d) peiriannau, fframiau ac atodion ar gyfer gwneud argraffiadau i'w defnyddio gan bobl ddall;
e) fframiau ac atodion ysgrifennu;
f) llawlyfrau Braille;
g) gemau (gan gynnwys gemau cardiau);
h) cyfarpar ac atodion mathemategol;
i) 'llyfrau llafar' a 'phapurau llafar' sydd yn recordiadau o ddarlleniadau o ffynonellau argraffedig, megis llyfrau, cylchgronau, papurau newydd, cyfnodolion neu gyhoeddiadau tebyg;
j) offer a ddefnyddir i chwarae llyfrau a phapurau llafar;
k) platiau metel a argreffir neu a anfonir i gael eu hargraffu ar gyfer eu defnyddio gan bobl ddall;
l) cyflenwadau o amgaeadau, amlenni a labeli ar gyfer anfon eitemau i'w defnyddio gan bobl ddall;
m) watsys, clociau, amseryddion, offer a thaclau mesur wedi eu dylunio i'w defnyddio gan bobl ddall;
n) ffyn cerdded wedi eu haddasu ar gyfer pobl ddall;
o) harneisiau ar gyfer cŵn tywys; neu
p) disgiau cyfrifiadur a disgiau cryno a baratowyd yn benodol i bobl ddall.

Atodiad B

<u>Gwledydd Ewropeaidd</u>

Albania, (Yr) Almaen, Andorra, Armenia, Aserbaijan, Asores, Awstria, (Ynysoedd) Baleares, Belarws, Belg, Bosnia-Herzegovina, Bwlgaria, Corsica, Croatia, Cyprus, Denmarc, (Yr) Eidal, Estonia, (Gwladwriaeth Ddinas y) Fatican, (Ynysoedd) Ffaröe, (Y) Ffindir, Ffrainc, Georgia, Gibraltar, Groeg, Gweriniaeth y Slofaciaid, Gweriniaeth y Tsieciaid, Hwngari, Ynys yr Iâ, (Yr) Iseldiroedd, (Gweriniaeth) Iwerddon, Kazakhstan, Kirghizstan, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Macedonia, Madeira, Malta, Moldofa, Monaco, Montenegro, Norwy, Portiwgal, Pwyl, Rwmania, Rwsia, San Marino, Sbaen, Serbia, Slofenia, Spitzbergen, Sweden, (Y) Swistir, Tajicistan, Twrci, Tyrcmenistan, (Yr) Wcráin, Wsbecistan, (Yr) Ynys Las, (Yr) Ynysoedd Dedwydd.